**MANYLEB**

**RHEOLIAD Y CYNGOR (CE) Rhif 510/2006 ar ddynodiadau daearyddol gwarchodedig ac enwau tarddiad gwarchodedig**

**"Tatws Cynnar" / "Tatws Cynnar Sir Benfro"**

Rhif CE:

ETG ( ) DDG ( X )

## 1 AWDURDOD CYMWYS

ENW: TÎM G.I., ADRAN YR AMGYLCHEDD, BWYD A MATERION GWLEDIG CYFEIRIAD: DEFRA
SW AREA
2ND FLOOR
SEACOLE BUILDING
2 MARSHAM STREET
LONDON
SW1P 4DF
FFÔN:
E-BOST: UKGIAPPLICATIONS@DEFRA.GOV.UK

## 2 GRŴP

| | |
|---|---|
| Enw: | Puffin Produce Ltd |
| Cyfeiriad: | Ystâd Ddiwydiannol |
| | Llwynhelyg Hwlfforddd Sir |
| | Benfro |
| | SA62 4BS |
| Ffôn: | 01437 766716 |
| Ffacs: | 01437 767319 |
| e-bost: | info@puffinproduce.com |

Cyfansoddiad: Cynhyrchwyr/proseswyr (oddeutu 25) Eraill (dim)

## 3 MATH O GYNNYRCH

Dosbarth 1.6 – Ffrwythau, llysiau a grawnfwydydd ffres/wedi'u prosesu

## 4 MANYLEB

### 4.1 Enw:

"Tatws Cynnar"/"Tatws Cynnar Sir Benfro"

### 4.2 Disgrifiad:

Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro yw'r enw a roddir ar datws anaeddfed o’r rhywogaeth solanum tuberosum o’r teulu Solanaceae.

Mae gan y daten y nodweddion canlynol:

Mae'n fach o ran maint, 15 – 70mm mewn diamedr, oherwydd oedran ifanc y tatws adeg eu cynaeafu. Mae'r daten yn gron neu'n hirgron ei siâp gyda chroen meddal a blas ac arogl cryf cneuol, nodweddiadol, y pridd arni. Mae ganddi weadedd hufenog a lliw gwyn i felyn golau sy'n gyson trwy’r daten.

Tyfir Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro o'r amrywogaethau tatws hadyd sylfaenol sydd wedi’u catalogio yn y cofrestrau cenedlaethol o amrywogaethau. Gwerthir Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro i archfarchnadoedd a chyfanwerthwyr tatws ledled y DU. Gwerthir y tatws naill ai'n rhydd neu mewn hambyrddau/bagiau o wahanol bwysau yn unol â gofynion y cwsmer. Gwerthir y cnwd cyntaf gyda'r pridd yn dal arno er mwyn diogelu croen meddal y tatws. Wrth i'r tymor fynd yn ei flaen mae croen y tatws yn caledu'n ddigonol i ganiatáu eu golchi. Fel arfer, cynaeafir Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro o ddechrau mis Mai tan ddiwedd mis Gorffennaf yn amodol ar y tywydd. Gelwir tatws a gynaeafir ar ôl y cyfnod hwn yn datws prif gnwd.

Mae'n rhaid plannu, tyfu a chynaeafu Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro yn yr ardal ddiffiniedig ac o fewn yr amserlen ofynnol.

### 4.3 Ardal ddaearyddol:

Sir Benfro yng Ngorllewin Cymru.

## 4.4 Prawf o darddiad:

*O datws hadyd*

Tyfir Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro o datws hadyd a brynir o ffynonellau ardystiedig rhydd o lyslau, o datws hadyd sydd wedi'u cofrestru gan y Cynllun Dosbarthu Tatws Hadyd neu gyfwerth. Mae ansawdd y tatws hadyd yn cael ei sicrhau gan Gynllun Ardystio Hafan Ddiogel Sicrwydd y Tractor Coch neu gyfwerth. Gellir olrhain taith tatws hadyd yn llawn o'u ffynhonnell hyd at gyrraedd y fferm ac mae’r gallu i’w holrhain yn parhau trwy gydol tyfu, cynaeafu, prosesu a gwerthu'r tatws gan sicrhau bod modd olrhain eu taith yn llawn "o’r pridd i'r plât" fel y cyfeirir ato isod.

*Ar y fferm*

Adeg cynaeafu, cyn i'r tatws adael y fferm, rhoddir cod unigryw i bob batsh o datws, y gellir ei olrhain; mae'n cyfeirio at ddyddiad a chae’r cynaeafu ac enw’r fferm yn Sir Benfro y daeth ohoni. Mae'r wybodaeth hon ar gael i broseswyr.

*Pecynnu a dosbarthu ar ôl gadael y fferm*

Gwerthir Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro i archfarchnadoedd a chyfanwerthwyr tatws ledled y DU. Gwerthir y tatws naill ai'n rhydd neu mewn hambyrddau/bagiau o wahanol bwysau yn unol â gofynion y cwsmer.

Os bydd prosesu pellach yn digwydd, e.e. os caiff tatws o flwch 1 tunnell eu golchi a'u rhoi mewn paciau llai o'r pwysau a grybwyllir uchod, rhoddir rhif gwahanol i bob batsh y gellir ei olrhain i'r cae a'r tyfwr.

Mae’r sicrwydd ar ôl gadael y fferm, gan gynnwys y gallu i olrhain, yn unol â Safon Fyd-eang ar gyfer Diogelwch Bwyd Consortiwm Manwerthu Prydain, neu gyfwerth. Mae'n ofynnol i'r system hon nodi ac olrhain lotiau o’r cynnyrch trwy gydol pob cam prosesu a dosbarthu i'r farchnad. Mae'r system yn sicrhau bod y cynnyrch a gyflenwir i gwsmeriaid wedi’i labelu neu ei nodi’n ddigonol i’w galluogi i’w olrhain.

Mae'r system a ddefnyddir yn gallu cysylltu cod y lotiau o ddeunydd crai drwodd i god y cynnyrch gorffenedig. Mae hyn yn golygu y gellir canfod y cynnyrch gorffenedig os byddai angen galw batsh penodol o ddeunydd crai yn ôl. Mae'r system olrhain yn cwmpasu deunyddiau pecynnu sylfaenol (sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â bwyd), a chymhorthion prosesu. Mae’r system

yn rhoi’r gallu i olrhain "ymlaen" ac "yn ôl" i'r ddau gyfeiriad a phrofir y system olrhain gyflawn o leiaf bob blwyddyn.

**4.5 Dull cynhyrchu:**

Mae dwy elfen cyn plannu i dyfu Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro:

Paratoi'r pridd a pharatoi'r had.

*Paratoi’r Pridd*

O'r hydref ymlaen, mae paratoi'r pridd yn dechrau gydag aredig. Yna gadawir i’r cae gael ei hindreulio, er mwyn caniatáu i'r pridd sydd wedi ei droi dorri lawr.

Er y gellir tynnu cerrig mawr i leihau difrod i gloron, cedwir cerrig llai i gynorthwyo i gynhesu'r pridd.

Pan fydd tymheredd y pridd yn uwch na 0 gradd C ac mae’r lefelau lleithder yn caniatáu i'r pridd fod yn ddigon briwsionllyd i gael ei drin. Mae hyn fel arfer yn ystod pythefnos olaf mis Chwefror, (ond gall fod mor gynnar â mis Ionawr ar dir arfordirol heb rew), mae'r pridd yn cael ei droi ac yna ei waredu o gerrig i'w dorri i lawr ymhellach, gan sicrhau ei fod mor fân â phosibl a bod dŵr yn llifo trwyddo’n rhwydd. Yna mae'r pridd yn barod i'w blannu.

*Paratoi’r Had*

Tyfir Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro o datws hadyd sydd wedi'u cofrestru gan y Cynllun Dosbarthu Tatws Hadyd neu gyfwerth. Os oes angen egino arnynt, yna maent yn cael eu storio mewn tai egino neu siediau gydag ochrau tryloyw fel bod golau’n gallu cyrraedd y tatws hadyd i’w hannog i egino mewn proses a elwir yn 'heneiddio ffisiolegol'. Yn ystod y broses hon rhoddir y tatws hadyd mewn haen sengl o hambyrddau i alluogi golau i gyrraedd pob taten hadyd unigol.

Mae'r tŷ egino wedi'i awyru'n dda i leihau'r risg o glefyd ac anwedd ac i helpu i atal y tymheredd yn y tŷ egino rhag codi uwchlaw 15 gradd C. Yn ystod tywydd oer, caeir y fentiau a defnyddir gwres o wresogyddion nwy neu ddiesel yn ôl yr angen, i gadw’r tymheredd aer amgylchynol yn y tŷ egino uwchlaw 1 gradd C. Erbyn canol mis Chwefror, ar ôl egino llwyddiannus, bydd gan datws hadyd eginyn cryf tua 25mm o hyd.

Plannu

Gwthir y pridd i fyny i greu rhychau bas a phlannir y tatws â llaw neu gan ddefnyddio peiriant.

Er mwyn iddynt dyfu'n gyflym, plannir y tatws hadyd o dan oddeutu 75mm o bridd; gyda'r un faint o bridd oddi tanynt. Mae'r rhychau bas hyn yn golygu y gall y pridd gynhesu'n gyflymach ac yn caniatáu i'r planhigion ddod i'r wyneb yn gyflym. Mae maint bach Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro adeg eu cynaeafu, yn gofyn am rychau bas.

Rheoli ar ôl plannu

Ar ôl i'r planhigion ddod i'r wyneb, bydd y cnwd yn cael ei chwistrellu bob tua deg diwrnod i atal clwy tatws. Oherwydd y rhychau bas, mae perygl i'r planhigion sychu allan, felly rhoddir sylw manwl i lefelau lleithder y pridd a gellir dyfrhau os yw ar gael.

Cynaeafu

Yn dilyn profion palu, mae cynaeafu fel arfer yn digwydd o ddechrau mis Mai tan ddiwedd mis Gorffennaf, yn amodol ar y tywydd.
I ddechrau, torrir "pennau gwyrdd" y planhigion i ffwrdd gyda thorrwr mecanyddol. Mae'r cnwd naill ai'n cael ei godi allan o'r ddaear gan beiriant codi mecanyddol a'i gasglu â llaw, neu ei gynaeafu gan beiriant sy'n cynnwys offer codi.

Efallai y bydd angen casglu â llaw wrth dyfu Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro ar dir ag iddo lethr serth, ac yn ystod pythefnos cyntaf y cynaeafu pan fydd croen y tatws yn feddal iawn. Mae casglu â llaw yn caniatáu cynaeafu'r tatws heb fawr o ddifrod i'r cnwd. Wrth i'r tymor fynd yn ei flaen, mae croen y tatws yn caledu'n ddigonol i ganiatáu cynaeafu gofalus â pheiriant. Mae natur ifanc a meddal y tatws yn golygu bod yn rhaid cymryd gofal mawr bob amser wrth gynaeafu â pheiriant.

Gwerthir Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro i archfarchnadoedd a chyfanwerthwyr tatws ledled y DU. Gwerthir y tatws naill ai'n rhydd neu mewn

hambyrddau/bagiau o wahanol bwysau yn unol â gofynion y cwsmer. Mae Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro yn cael eu dwyn i'r farchnad cyn gynted â phosibl er mwyn darparu'r cynnyrch mwyaf ffres posibl.

**4.6 Cysylltiad:**

Hinsawdd fwyn Sir Benfro sy'n galluogi tyfu a chynaeafu Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro yn gynnar yn y flwyddyn, eu hamser tyfu byr, a'u ffresni, gan greu blas unigryw y bu galw mawr amdano yn hanesyddol, ac ar hyn o bryd. Mae gan Sir Benfro'r tymor tyfu cynharaf a hiraf yng Nghymru.

Mae angen cynhesrwydd ar Datws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro i sicrhau tyfiant llwyddiannus. Oherwydd ei lleoliad ym mhwynt mwyaf gorllewinol Cymru, ar arfordir gorllewinol y DU ac wedi'i hamgylchynu gan y môr ar dair ochr, mae Sir Benfro mewn lleoliad unigryw i elwa o'r cynhesrwydd a gynhyrchir gan y môr sy'n cael ei gynhesu gan Ddrifft Gogledd Iwerydd Llif y Gwlff. Mae Llif y Gwlff yn gerrynt pwerus, cynnes a chyflym yng nghefnfor yr Iwerydd sy'n tarddu wrth flaen penrhyn Fflorida. Mae'r cerrynt yn helpu i gadw arfordir gorllewinol Prydain Fawr ychydig raddau yn gynhesach na'r ochr ddwyreiniol. Fel y cyfryw, mae gan Sir Benfro hinsawdd fwy teg a mwyn nag ardaloedd mewndirol oherwydd effaith oeri'r môr yn yr haf ac mae'n dueddol o fod yn gynhesach yn y gaeaf o'i gymharu â'r mewndir. Mae effaith cynhesu'r môr ar y sir yn helpu'r pridd i gynhesu'n gynharach nag yn rhannau eraill o'r DU, gan hwyluso tyfiant. Mae hefyd yn lleihau'r risg y bydd rhew yn difrodi'r cnwd sy'n dod i'r wyneb. Mae gan Sir Benfro'r tymor tyfu cynharaf yng Nghymru. Mae tegwch yr hinsawdd yn hynod fuddiol i dyfiant planhigion.

Mae'r Dr Brian John yn nodi yn ei lyfr, The Geology of Pembrokeshire.

"…..*Mae priddoedd Sir Benfro yn enwog am eu cnydau o datws cynnar, yn enwedig yn agos i'r arfordir.....*

*…… Prif nodwedd wahaniaethol daeareg Sir Benfro yw ei bod yn cynnwys creigiau aruthrol o hen. Mae'r rhan fwyaf o'r creigiau sy'n ffurfio cyfansoddiad y sir dros 280 miliwn o flynyddoedd oed, heb unrhyw bresenoldeb craig ifanc, fel yr hyn a welir yn Lloegr. Mae creigiau Gogledd y sir yn rhai Cyn-Gambriaidd a Phalaeosöig Is (hynny yw, dros 295 miliwn o flynyddoedd oed), tra bod De'r sir wedi'i wneud o greigiau o'r oes Palaeosöig Uchaf (hynny yw, llai na 395 miliwn o flynyddoedd oed ond heb fod dros 225 miliwn o flynyddoedd oed)....."*

Mae'r creigiau hynafol hyn a'r priddoedd unigryw y maent yn eu cynhyrchu yn helpu i gyfrannu at unigrywiaeth Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro. Tyfir y rhan fwyaf o Datws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro mewn priddoedd Tywodfaen Coch ar dir sy'n wynebu'r de yn agos at yr arfordir. Mae'r tir hwn yn ei hanfod yn ffrwythlon, yn hawdd ei weithio ac mae dŵr yn llifo trwyddo’n rhwydd. Mae'r priddoedd yn sychu'n gyflym ac maent hefyd yn cynhesu’n gyflym yn y gwanwyn ac mae gan Sir Benfro lai o risg o rew na mannau eraill yng Nghymru fewndirol.

Mae nifer o gyfeiriadau sy'n dangos pwysigrwydd hanesyddol tyfu tatws yn Sir Benfro a bod Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro yn gysylltiedig â'r sir.

Mae Redcliffe Salaman yn nodi yn ei lyfr *The History and Social Influence of the Potato,* bod Arthur Young wedi ymweld â Sir Benfro ym 1776 ac ar ôl glanio yn Aberdaugleddau canfu bod tyfu tatws yn digwydd dros ardal eang. Yn ogystal yn *Early Potatoes* gan W.L Thomas a P.W. Eyre; dechreuwyd tyfu Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro ar raddfa caeau ym 1922.

Arweiniodd yr Ail Ryfel Byd, a'r pwysau gwleidyddol a’r pwysau ar farchnadoedd yn ei sgil, at gynnydd yn faint o erwau o datws oedd yn cael eu tyfu yn Sir Benfro, gyda’r mwyafrif yn cael eu gwerthu i farchnadoedd yng nghanolfannau poblogaethau mawr De Cymru a Chanolbarth Lloegr.

Gwelwyd yn y cyfnod rhwng 1950au a'r 70au gynnydd yn y sector tyfu tatws cynnar, gyda ffermwyr Sir Benfro yn gwerthu'r mwyafrif o’u tatws cynnar i farchnadoedd yng Nghanolbarth Lloegr a Gogledd Lloegr i ddiwallu’r galw cynyddol gan y cwsmer.

Yn yr 1980au cynnar, daeth 30 o dyfwyr ynghyd i ffurfio Grŵp Marchnata Tatws a sicrhaodd mai dim ond tatws o ansawdd digonol a gyflenwyd i'r farchnad. Yn ddiweddarach, ym 1995, adeiladwyd ffatri brosesu yn Sir Benfro a ddechreuodd raddio a phrosesu tatws ar gyfer y marchnadoedd lluosog.

Mae gan holl dyfwyr Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro wybodaeth gynhenid am nodweddion lleol. Mae'n rhaid i dyfwyr wybod pryd i blannu i sicrhau’r pwysau cnwd mwyaf. Mae'r ffactorau y mae'n rhaid iddynt eu hystyried yn cynnwys tymheredd y pridd, cyflwr y pridd, ffactorau tywydd ac "ymdeimlad" a dealltwriaeth o bryd mae'r pethau hyn i gyd yn dod at ei gilydd i ddynodi amser da i blannu. Mae'r rhain yn sgiliau penodol sy'n gysylltiedig â thyfu Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro, sy'n benodol i'r ardal ac i'r cnwd ac sydd wedi'u datblygu dros y blynyddoedd a'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae paratoi’r pridd yn hollbwysig, gan adael cerrig llai

yn y pridd i helpu i'w gynhesu. Mae amseru sut i gael tatws sydd wedi egino ar eu cam datblygu gorau posibl mewn pryd ar gyfer eu plannu yn hynod bwysig. Fel y cyfeirir ato yn adran 4.5, efallai y bydd angen casglu â llaw wrth dyfu Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro ar dir ag iddo lethr serth, ac yn ystod pythefnos cyntaf y cynaeafu pan fydd croen y tatws yn feddal iawn. Mae casglu â llaw yn caniatáu cynaeafu'r tatws heb fawr o ddifrod i'r cnwd. Wrth i'r tymor fynd yn ei flaen, mae'r tatws yn caledu'n ddigonol i ganiatáu cynaeafu gofalus â pheiriant. Mae natur ifanc a meddal y tatws yn golygu bod yn rhaid cymryd gofal mawr wrth gynaeafu â pheiriant.

Mae Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro wedi hen ennill eu plwyf ac yn cael eu cydnabod yn eang gan y diwydiant bwyd. Fel cynnyrch o ansawdd fe'u defnyddir gan lawer o'r cogyddion a'r gastronomyddion gorau ac maent yn ymddangos yn rheolaidd fel cynhwysyn a enwir ar eu bwydlenni. Mae llawer o berchnogion bwytai a busnesau bwyd-amaeth o fri wedi dangos eu hoffter o'r tatws hyn.

Dyma sylwadau sy'n cydnabod blas Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro.

Mae Simon Wright – perchennog bwytai a darlledwr yn disgrifio blas Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro fel "*melys, cneuol, llawn blas gyda chymeriad, blas a hunaniaeth unigryw*"

Dywed Owen Hall, Cogydd yng Ngwesty Cas-blaidd ei fod yn hoff o Datws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro *"..yn fy marn i mae gan Datws Cynnar Sir Benfro flas unigryw oherwydd y pridd cyfoethog yn Sir Benfro.."*

Yn 2009 enillodd Tatws Cynnar/Tatws Cynnar Sir Benfro sawl Gwobr Gwir Flas.

## 4.7 Corff archwilio:

Enw: Dinas a Sir Abertawe

Cyfeiriad: Is-adran Safonau Masnach, Neuadd y Ddinas, Abertawe, SA1 4PE

Ffôn: +44 (0) 1792 635600

Ffacs:

E-bost: safonau.masnach@abertawe.gov.uk

Gellir defnyddio cyrff archwilio eraill ac Is-adrannau Safonau Masnach o ardaloedd eraill cyn belled â bod y corff archwilio yn cydymffurfio ag egwyddorion safon ISO 17065.

**4.8 Labelu:**

AMH